**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024 trwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

<u>Cynrychiolwyr y Cyflogwr:</u>
Y Cynghorydd Gwynfor Owen
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a'r Swyddog Monitro

<u>Cynrychiolwyr y Cyflogeion:</u>
Geraint Evans, cynrychiolydd System Dyletswydd ar Alwad (gadawodd 14:05)
Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

<u>Ymgynghorwyr</u>
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed (gadawodd 13:50)
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân

<u>Cofnodydd</u>
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Rheolwr Ardal Paul Kay, y Cynghorydd Bryan Apsley a’r Cynghorydd John Brynmor Hughes. Nodwyd nad oedd Cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân wedi'u penodi'n swyddogol i'w swyddi eto ac felly nid oedd unrhyw gynrychiolwyr yn bresennol y tro hwn.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir.

**4 CADARNHAU'R CADEIRYDD - AR LAFAR**

4.1 Gofynnodd y PSTC MacArthur am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd. Enwebwyd Dafydd Edwards. Cafodd yr enwebiad ei eilio ac roedd pawb o blaid.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cadarnhau Dafydd Edwards yn Gadeirydd ar y Bwrdd Pensiwn Lleol.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 23/24

5.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r Aelodau oedd yn rhoi manylion gwaith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ynghlwm yn atodiad 1.

5.2 Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhai o'r dyddiadau yn y papur yn anghywir ac, er eglurder, roedd yr adroddiad yn cyfeirio at waith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 a'r gwaith cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod 2024/25,

5.3 Cynigiwyd cynnwys rhestr o Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn yr Adroddiad Blynyddol. Eiliwyd y cynnig ac roedd pawb o blaid.

5.4 Cynigiwyd ymhellach y dylid ychwanegu paragraff at yr Adroddiad Blynyddol yn manylu ar y gwaith partneriaeth a wnaed o ran cyfathrebu ag aelodau'r cynllun a hyrwyddo porth Fy Mhensiwn Ar-lein. Eiliwyd y cynnig ac roedd pawb o blaid.

5.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) ychwanegu rhestr o aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol at yr Adroddiad Blynyddol;**
**ii) ychwanegu paragraff yn manylu ar y gwaith partneriaeth a wnaed o ran cyfathrebu ag aelodau'r cynllun a hyrwyddo porth Fy Mhensiwn Ar-lein; a**
**iii) chefnogi adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24 i'w gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), gyda'r newidiadau uchod wedi'u gwneud.**

## 6 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN

6.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.2 Nododd y PSTC MacArthur fod holl Ddiffoddwyr Tân y system dyletswydd ar alwad a oedd newydd eu penodi bellach wedi'u cofrestru'n awtomatig ar y cynllun pensiwn a'i fod yn cael ei hyrwyddo'n gryf yn ystod pob ymweliad â gorsaf.

6.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod disgwyliad o ran dyletswydd gofal sy'n golygu na ddylai'r rhai nad ydynt yn rhan o'r cynllun pensiwn deimlo dan bwysau i ymuno, os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny; fodd bynnag, roedd hefyd angen cydbwyso hynny trwy ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn caniatáu iddynt wneud penderfyniad gwybodus.

6.4 Gofynnwyd a oedd cyfyngiad ar faint y gallai diffoddwr tân y system dyletswydd ar alwad ei gyfrannu at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân os oeddent eisoes yn aelod o gynllun pensiwn arall yn eu prif swyddi. Ymatebodd y PSTC MacArthur drwy ddweud, er bod cyfyngiadau ar waith, eu bod wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â hynny, nodwyd bod y lwfans oes wedi'i ddiddymu o ddeddfwriaeth treth ar bensiwn o 6 Ebrill 2024 ymlaen.

6.5 Awgrymwyd y dylid darparu rhywfaint o ddeunydd darllen am y cynllun pensiwn er mwyn i gynrychiolwyr eu rhoi i gydweithwyr. Ymatebodd y PSTC MacArthur drwy ddweud y dylid bod yn ofalus yn y maes hwn gan nad oedd cynrychiolwyr yn gynghorwyr ariannol ac felly ni ddylid eu rhoi mewn sefyllfa lle gellid ystyried eu bod yn rhoi cyngor ariannol. Cafodd ei gydnabod, fodd bynnag, bod cyfathrebu yn allweddol a chadarnhawyd y byddai swyddogion yn cymryd pob cyfle i geisio ehangu gwybodaeth am y cynllun a'i fanteision.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

## 7 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

7.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) – Ionawr 2024, a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o brosiectau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â rhoi gwybodaeth ar faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

7.2 Cytunwyd y byddai'r set nesaf o ddata yn cael ei hadrodd hyd at fis Mawrth 2024.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad**

**8 DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL**

8.1 Croesawodd y Cadeirydd Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau y Diffoddwyr Tân, i'w chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

8.2 Amlinellodd Kim yr amserlenni statudol a osodwyd gan y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus, a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn benodol. Roedd y rhain yn aml yn cael eu galw'n ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

8.2 Diolchwyd i Kim am ei hadroddiad.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**ii) nodi'r rhwymedigaeth statudol a osodir ar Reolwr y Cynllun i sicrhau bod yr amserlenni hyn yn cael eu bodloni.**

**9 Y GOFRESTR RISG**

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar y trefniadau rheoli risg. Archwiliwyd a thrafodwyd y Gofrestr Risg yn fanwl.

9.2 **Penderfynwyd:**

**i) Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cydymffurfiaeth rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

**10 HYFFORDDIANT**

10.1 Gofynnodd PSTC MacArthur i'r eitem hon gael ei hystyried ochr yn ochr ag eitem 12.

10.2 Nododd y PSTC MacArthur fod yn rhaid i bob Aelod feddu ar wybodaeth sylfaenol drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Roedd hefyd angen cyflwyno hyfforddiant i Aelodau ar feysydd penodol ac felly byddai rhaglen hyfforddi yn cael ei datblygu gan y PSTC MacArthur a'r Cadeirydd ar gyfer sesiynau yn y dyfodol.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) y byddai'r PSTC MacArthur a'r Cadeirydd yn datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.**

**11 BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN**

11.1 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur nad oedd unrhyw ddiweddariad i'w roi o ran yr eitem hon.

**12 HYFFORDDIANT YR OMBWDSMON PENSIYNAU**

12.1 Roedd pob Aelod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn sesiwn yr Ombwdsmon Pensiynau ar 25 Tachwedd 2024 rhwng 10:00 a 12:00 yn seiliedig ar ddeall rôl y Rheoleiddiwr Pensiynau a sut maen nhw'n mynd i'r afael â chŵynion.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Anfon gwybodaeth am y sesiwn hon at holl Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol.**

**13 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

13.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio i'r Awdurdod.

**14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

14.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 18 Gorffennaf 2024 am 09:30.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:25